

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## Y Bil Pysgodfeydd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a chyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw un o Filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu os yw'n gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd y Bil Pysgodfeydd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref 2018. Mae'r Bil i'w weld yma:

[Dogfennau'r Bil - Bil Pysgodfeydd 2017-19 - Senedd y DU](#)

### Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai amcanion ei pholisi yw adfer ei rheolaeth ar foroedd y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, a darparu polisi i gymryd lle'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:
  - amcanion polisi ar gyfer pysgodfeydd, pysgota a dyframaethu;
  - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
  - trwyddedu cychod pysgota;
  - pennu a dosbarthu cyfleoedd pysgota;
  - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb ganiatâd;
  - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu ddiogelu'r môr;
  - adfer costau wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
  - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach mewn cysylltiad â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid y dŵr;
  - gwneud darpariaethau ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn cysylltiad â defnyddio pysgodfeydd y môr; a dibenion cysylltiedig.
6. Ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r Bil yn cynnwys hefyd bwerau i Weinidogion Cymru.

### Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

7. I'r graddau y mae'r Cymalau isod yn berthnasol i Gymru, maent o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### *Amcanion pysgodfeydd a datganiadau pysgodfeydd*

8. Mae Cymal 1 yn diffinio set o amcanion pysgodfeydd sy'n gymwys ar gyfer y DU gyfan. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cynaliadwyedd, yr egwyddor rhagofalus, mynediad cyfartal i gychod y DU yn holl ddyfroedd y DU ac amcan taflu pysgod.
9. Mae Cymal 2 yn diffinio Cyd-ddatganiadau Pysgodfeydd (JFS) ac yn diffinio bod Gweinidogion Cymru yn Awdurdod Polisi Pysgodfeydd at ddiben y Bil.
10. Mae Cymal 3 yn gofyn i Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd weithio gyda'i gilydd i baratoi JFS ac yn cyflwyno atodlen 1.
11. Atodlen 1 - Datganiadau Pysgodfeydd: paratoi a chyhoeddi

Mae Rhan 1 yn diffinio'r drefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi JFS. Mae Rhan 1 3(1)(b) yn nodi bod yn rhaid i bob awdurdod polisi pysgodfeydd osod drafft ymgynghori ger bron y ddeddfwrfa briodol. Mae Rhan 1 3(4) yn dweud os mai'r awdurdod polisi pysgodfeydd yw Gweinidogion Cymru, yna'r ddeddfwrfa briodol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rhan 1, adran 3, is-adran 3 yn dweud bod yn rhaid i'r awdurdod polisi pysgodfeydd osod datganiad ger bron y ddeddfwrfa briodol sy'n cynnig ymateb i unrhyw benderfyniad neu argymhelliad a wneir mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae Rhan 1 adran 4 yn darparu ar gyfer cyhoeddi'r JFS.

12. Mae Cymal 4 yn caniatáu newid y JFS.
13. Mae Cymal 5 yn gofyn am gyhoeddi'r JFS cyn 1 Ionawr 2021 a'i adolygu o leiaf bob 6 mlynedd.
14. Mae Cymal 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cenedlaethol, sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru at ddiben y JFS, arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu yn unol â'r JFS oni cheir ystyriaethau perthnasol sy'n dweud fel arall.

### *Mynediad i Bysgodfeydd Prydain*

15. Mae Cymal 7 yn dileu'r egwyddor mynediad cyfartal i ddyfroedd Ewrop o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin fel y'i cadwyd yng nghyfraith y DU.
16. Mae Cymal 8 yn gorchymyn na chaiff cwch pysgota tramor fynd i ddyfroedd y DU heb fod ganddo drwydded bysgota ddilys y DU neu heb bwrpas a gydnabyddir mewn cyfraith neu gytuniad rhyngwladol.

### *Trwyddedu cychod pysgota*

17. Mae Cymal 9 yn darparu mai dim ond cychod trwyddedig sy'n cael pysgota. Mae Cymal 9 yn darparu wedi hynny nifer o eithriadau i'r rheol

gyffredinol hon. Ceir yr eithriadau hynny mewn is-ddeddfwriaeth. Mae Cymal 9 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r rhan hon trwy Orchymyn, o dan y weithdrefn gadarnhaol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Alban ac Adran Gogledd Iwerddon.

18. Mae Cymal 10 yn darparu mai mater i bob un o genhedloedd y DU yw trwyddedu ei chychod pysgota ei hunan. At ein dibenion ni, mae cymal 10 yn darparu ar gyfer sicrhau y gall Gweinidogion Cymru roi trwydded bysgota ar gyfer cychod pysgota yng Nghymru.

19. Mae Cymal 11 yn darparu ar gyfer trwyddedu cychod pysgota tramor ac y mae hwn hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol greu, amrywio neu newid amodau'r gofyn hwn trwy Orchymyn o dan y weithdrefn gadarnhaol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Alban ac Adran Gogledd Iwerddon.

20. Mae Cymal 12 yn darparu pwerau i bob gwlad yn y DU i roi trwyddedau i gychod pysgota tramor o ran yr ardal weinyddu berthnasol.. At ein dibenion ni, mae cymal 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i drwyddedu cychod pysgota tramor yng Nghymru ac ym mharth Cymru.

21. Mae Cymal 13 yn darparu diffiniad o 'drwydded pysgota môr' ar gyfer y Ddeddf ac yn cyflwyno atodlen 2.

## 22. Atodlen 2 - Trwyddedau Pysgota Môr: Darpariaethau Pellach

Mae Atodlen 2 yn darparu amrywiaeth o bwerau gan gynnwys y gallu i osod amodau ar drwydded pysgota môr a'r pŵer i newid, atal neu ddiddymu trwyddedau pysgota môr o bryd i'w gilydd. Mae paragraff 4 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod trwyddedu pysgod i gydymffurfio â cheisiadau o awdurdodau eraill o'r fath er mwyn sicrhau cysondeb a'r gallu i orfodi. Mae paragraff 7 yn rhoi'r pŵer i bob awdurdod cenedlaethol (sy'n cae ei ddiffinio fel Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â thrwyddedu cychod pysgota o Gymru neu gychod pysgota tramor yng Nghymru neu barth Cymru) wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y mae yr awdurdod trwyddedu pysgod y môr (hefyd Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r materion a nodwyd uchod) yn ymarfer eu swyddogaethau trwyddedu. Os nad yw'r Rheoliadau hynny yn cynnwys darpariaeth i leihau yr amser y caiff cwch pysgota dreulio ar y môr (yn yr achos hwnnw byddai gweithdrefn gadarnhaol yn berthnasol), mae'r weithdrefn negyddol yn berthnasol.

### *Mynediad a thrwyddedu: troseddau a newidiadau canlyniadol*

23. Mae Cymal 14 yn darparu rheolau sy'n ymwneud â chosbau am droseddau o dan y cymalau sy'n dilyn sy'n ymwneud â mynediad a thrwyddedu. Mae Cymal 15 yn cymhwyso troseddau o dan gymalau blaenorol i gyrff corfforaethol. Mae Cymal 16 yn pennu'r awdurdodaeth ar

gyfer y troseddau hyn, i'w hystyried fel pe baent wedi'u cyflawni yn unrhyw ran o'r DU.

24. Mae Cymal 17 yn cyflwyno atodlen 3 sy'n cynnwys newidiadau canlyniadol y darpariaethau a geir yng nghymalau 7 i 16.

#### *Cyfleoedd pysgota*

25. Mae Cymal 18 yn darparu y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU (o ran yr uchafswm o bysgod y môr ac uchafswm y dyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain dreulio ar y môr) a hynny yn unig er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymadau rhyngwladol i bennu cyfleoedd pysgota yn y DU. Nid ydym yn fodlon gyda drafftio Cymal 18 sy'n rhoi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol osod cwotâu ar gyfer y DU, a ellid fel y mae ar hyn o bryd fod yn berthnasol i stociau sydd o fewn dyfroedd un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn gyfan-gwbl. Mae cymal 18(8) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau drwy reoliadau ar gyfer pennu nifer y dyddiau y tybir bod cwch wedi'i dreulio ar y môr.
26. Mae Cymal 19 yn darparu na cheir pennu unrhyw beth o dan Gymal 18 tan yr ymgynghorir â Gweinidogion Cymru a'r Alban, Adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol.
27. Mae Cymal 20 yn dirymu Erthygl 16 Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac yn gwneud newidiadau i Erthygl 17 y Rheoliad hwnnw sy'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Sefydliad Rheoli Morol o ran dosbarthu cyfleoedd pysgota.
28. Mae Cymal 21 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol perthnasol (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru), i ymarfer eu swyddogaethau pysgota fel nad ydynt yn fwy na cyfleoedd pysgota y DU.

#### *Grantiau a thaliadau*

29. Mae Cymal 28 yn cyflwyno atodlen 4 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i greu cynlluniau ar gyfer cymorth ariannol.

#### 30. Atodlen 4 - Cymorth Ariannol

Mae paragraff 1 o Atodlen 4 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol neu i drefnu rhoi cymorth ariannol i unrhyw bobl at ddibenion penodol. Darperir y pwerau hyn i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chychod pysgota o Gymru neu gychod pysgota tramor yng Nghymru neu barth Cymru. Mae'n rhaid i gymorth ariannol o'r fath gael ei roi yn unol â chynllun a sefydlwyd trwy reoliadau (yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol) a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 3 o Atodlen 4 yn gwneud newidiadau canlyniadol.

31. Mae Cymal 30 yn diwygio Deddf Pysgodfeydd 1981 i ddileu cyfeiriad at aelod-wladwriaeth.

*Pwerau i wneud darpariaethau pellach*

32. Mae Cymal 31 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau, mewn Rheoliadau, mewn cysylltiad â physgodfeydd a dyframaethu ac mae cymal 33 yn darparu pŵer creu Rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch clefydau anifeiliaid dŵr. Mae Cymal 34(3) yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud y darpariaethau hyn ble y byddant o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fodd bynnag, mae cymal 35(2) yn darparu y gellir cynnwys darpariaeth o'r fath gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, Mae'n rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaeth o dan gymal 31 neu 33 mewn unrhyw achos.

33. Mae Cymal 37 yn cyflwyno atodlen 6 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau sy'n gymesur â chymalau 31 a 33.

34. Atodlen 6 - Pwerau Gweinidogion Cymru ac adran Gogledd Iwerddon.

Mae atodlen 6 yn darparu amrywiaeth o bwerau er mwyn gallu newid cyfreithiau cadw'r UE, cyfraith ddomestig ac i wneud rheoliadau i roi cytundebau rhyngwladol ar waith a hefyd i reoli clefydau dyfrol. Rhoddir y pwerau hyn i Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ac unrhyw berson y byddant yn debygol o effeithio arno. Daw rheoliadau a wneir o dan Atodlen 6 o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

35. Mae Cymal 38 yn cyflwyno atodlen 7 sy'n cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â defnyddio adnoddau pysgodfeydd morol.

36. Atodlen 7 - Pwerau i ddefnyddio adnoddau pysgodfeydd morol

Mae atodlen 7 yn rhoi pwerau sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau pysgodfeydd mrool drwy wneud nifer o newidiadau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae paragraff 12 o Atodlen 7 yn gosod adrannau newydd 134A i 124C i Deddf 2009 sy'n darparu'r pwerau canlynol i Weinidogion Cymru.

Mae Adran 134A yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchmynion ar gyfer Cymru at ddibenion cadw ffawna a flor morolneu gynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol. Mae Adran 134B yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Gorchmynion mewn perthynas â rhanbarthau ar y môr yng Nghymru (h.y. ardal parth Cymru sydd y tu hwnt i Gymru) at ddibenion cadwraeth fflora a ffawna neu gynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol neu nodweddion neu fuddiannau geolegol neu geomorffeg. Mae adran 134C yn gwneud darpariaethau

pellach ynghylch y materion y gellir eu cynnwys mewn Gorchymyn o dan adrannau 134A neu 134B.

Mae paragraffau 13 o Atodlen 7 yn mewnosod is-adran newydd 135(1A) i Ddeddf 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r MMO, y Sefydliad Rheoli Morol, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon a phersonau eraill y mae'n debygol yr effeithir arnynt cyn gwneud Gorchymyn o dan yr adran newydd 134B. Mae paragraff 14 o Atodlen 7 yn mewnosod is-adran newydd 136(1A) i Ddeddf 2009 sy'n ymestyn i adran 136 bŵer i wneud Gorchymynion dros-dro i ranbarth Cymru ar y môr. Mae paragraff 17 i 26 yn gwneud newidiadau canlyniadol pellach i Ddeddf 2009 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru i lunio deddfwriaeth yn unol â'r newidiadau a wnaethpwyd i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn amodol ar y weithdrefn ddatrys negyddol drwy adran 316(8) y Ddeddf honno.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Pysgodfeydd**

37. Mae'r Bil Pysgodfeydd y'n creu elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd a chymorth wedi ymadael â'r UE. Dim ond trwy Fil y DU, sy'n darparu set unffurf o ymrwymadau ac amcanion, y byddai'n briodol cymhwyso'r darpariaethau hyn.
38. A ninnau'n gadael yr UE ym mis Mawrth 2019, nid oes amser i ddeddfwriaeth addas basio trwy'r Cynulliad. Byddai Bil Cynulliad o'r fath ond yn gallu delio gyda'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol yn gysylltiedig â Chymru ac mae Bil arfaethedig Pysgodfeydd y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, parth Cymru a chychod pysgota yng Nghymru y tu hwnt i'r parth hwnnw fel y bo'n briodol.
39. O dan y trefniadau datganoli presennol, ni fyddai Deddf gan y Cynulliad yn gallu gwneud yr holl ddarpariaethau fyddai eu hangen i wneud Bil ystyrlon. Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n rhannol ar Fil Pysgodfeydd y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymreig.
40. Mae Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd, ar wahân i gymal 18.. Fodd bynnag, ceir dau faes hefyd nad ydynt wedi cael digon o sylw. Yn gyntaf, nid yw'r Bil yn lleddfu'n gofidiau ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â cymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru, a fyddai'n golygu bod fframweithiau ledled y DU yn llai cymhleth wrth symud ymlaen.
41. Yn ail, carai Llywodraeth Cymru weld Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cael ei ddiwygio er mwyn i Weinidogion Cymru gael newid yr amodau a roddir ar unrhyw drwydded yn unol â'r Ddeddf. Byddai hynny'n

caniatáu inni reoli'n pysgodfeydd mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.

42. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn a materion eraill a chyflwynwn Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol os oes angen.

### **Goblygiadau ariannol**

43. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn.

### **I Gloi**

44. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn mewn Bil y DU gan fod angen mynd i'r afael â chreu Fframwaith Pysgodfeydd ar lefel y DU gyfan a Bil y DU yw'r unig ffordd o wneud hynny. Ceir nifer o ddarpariaethau yn y Bil y mae'n rhaid eu cwblhau cyn i'r DU adael yr UE.

**Lesley Griffiths AC**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**  
**Tachwedd 2018**